Ar ein diwrnod cyntaf, fe gasglon ni'r cit o'r storfeydd, yn cynnwys dillad a dillad gwely ac yna i'r arfdy lle casglon ni reiffl a bidog, ac yna'n ôl i ystafell y Barics lle cawsom ein briffio gan yr 'NCOs' a ddywedodd wrthym beth oeddem yn mynd i'w wneud a beth oedd yn mynd i ddigwydd i ni.

Cawsom ein dyrannu gwely a dangoswyd i ni sut i roi ein dillad gwely mewn bocsys i'w harchwilio. Roedd gennym un cabinet dur a dyna ni fwy neu lai. Roedd y rhan fwyaf o'r recriwtiaid o'r Wlad Ddu a dim ond dau ohonom oedd wedi dod o ysgolion cyhoeddus. Ar y noson gyntaf, gwisgodd y ddau ohonom ein pyjamas cyn mynd i'r gwely. Yn sydyn, roedden ni wedi ein hamgylchynu gan y recriwtiaid eraill. Doedden nhw ddim wedi gweld pyjamas o'r blaen ac roedden nhw jesd yn mynd i'r gwely yn eu pants a'u festiau. Roedden nhw'n ffeindio hwnna'n ddoniol iawn!

Doedd dim matresi ar y gwelyau. Fframiau dur tynnu allan oedden nhw lle bydden ni'n rhoi ein tri 'bisged' bob nos. Roedd y 'bisgedi' wedi'u llenwi gyda gwellt ac yn ystod y nos wrth i ni gysgu arnyn nhw, roedd y 'bisgedi' yn llwyddo i ymledu ar wahân a phob bore bydden ni'n deffro gyda phatrwm i lawr ein hochrau lle'r oedd y gwifrau dur wedi bod. Roedd gennym ni glustogau bach crwn a oedd nhw hefyd wedi'u stwffio gyda gwellt.

Y diwrnod canlynol, cawsom ni i gyd ein gorymdeithio i ffwrdd yn gyflym i torri ei'n gwallt lle roedd 'cefn ac ochrau byr' yn drefn y dydd. Roedd yna udo poenus wrth i wallt annwyl phobl syrthio i'r llawr. O'r fan honno, cawsom ein cludo i'r ganolfan feddygol am ein brechlynnau. Cawsom ein rhesi lan heb ein cysau, ein dwylo ar ein clun, ac aeth y meddyg gyda chwistrell fawr mynd o un i'r llall, gan ein chwistrellu â'r un nodwydd. Llewygodd rhai o'r recriwtiaid yn llythrennol ac roedd y meddyg yn dweud wrth ei helpwr, 'daliwch un yna!' Llewygodd dau ddyn o'n platŵn ni.

Roedd yr hyfforddiant yn bennaf yn cynnwys ymarfer arfau. Treulion ni lawer o amser ar y meysydd saethu yn dysgu sut i saethu. Roedd rhain tua chwarter milltir i ffwrdd, yn ystodau saethu hir o 600yds. Dwi'n cofio o'n i'n saethwr da ac fe ges i fathodyn 'marksman'. Pan oedd hi'n bwrw glaw, aethon ni i mewn i sied fawr oedd ar ymyl y maes parêd enfawr i barhau â'r hyfforddiant arfau yno.

Dw i hefyd yn cofio mynd i mewn i'r siambr nwy. Aethon ni i mewn gyda'n masgiau nwy ymlaen yna cafodd cetrn nwy ei danio a roedd rhaid ni i redeg o gwmpas ychydig, cyn tynnu ein masgiau nwy i ffwrdd. Yna byddem ni'n cael ein llethu gan y nwy cyn i'r 'NCOs' agor y drws i'n gadael ni allan, erbyn hynny roedd eich trwyn a'ch ceg a phopeth yn llifo. Cymerodd ychydig o amser i wella. Dw i'n meddwl bod rhai o'r 'NCOs' wedi cael pleser mawr o gadw eu masgiau nwy eu hunain ymlaen, yn weld y recriwtiaid yn cael ddos cryf o'r nwy a doedd yr NCOs yn profi ddim. Pwrpas y prawf hyn oedd i dysgu sut i ffitio'r masgiau a dangos i ni eu bod nhw'n gweithio.

Un wythnos yn ystod ein hyfforddiant, cawsom ein hanfon am waith amaethyddol a oedd yn cynnwys helpu'r ffermwr lleol i gasglu ei datws. Profodd i fod yn waith galed ar y cefn! Ar ôl y chwe wythnos o hyfforddiant ar ddiwedd 1947, aethon ni ymlaen i 'Hyfforddiant Troedfilwyr Parhaus' mewn lle bach o'r enw 'Tinkers Green' ger Croesoswallt. Roedd hyn am chwe wythnos arall. Un digwyddiad rwy'n ei gofio oedd bod un o'n recriwtiaid yn ddrwg iawn ac yn ceisio rheoli pawb o gwmpas. Roedd yn ddyn cas iawn ac yn mynd allan yn yfed lot pan oedden ni'n cael mynd allan. Byddai'n dod yn ôl yn oriau mân y bore ac yn creu sŵn uffernol ac yn deffro pawb. Un noson pan oedd e wedi bod yn gwneud hyn, gwaeddais arno i 'cau dy ceg!'. Daeth yn syth at fy ngwely a thafu'r cyfan ar y llawr. Felly, codais i a'i wynebu a

chawsom ychydig o 'scuffle'. Pan sylweddolodd nad oedd yn cael y gorau o'r sgrap oherwydd fy hyfforddiant bocsiio yn yr ysgol, aeth at ei wely a chael ei reiffl (a oedd yn cael ei gadw ar raciau y tu ôl i'n gwelyau), ac ei fidog a dechrau rhuthro o gwmpas yn ceisio fy nhrywanu. Erbyn hyn roedd pawb wedi deffro gan gynnwys yr 'NCOs' oedd yn byw mewn ystafell wrth ein hochr a chafodd ei drechu. Cafodd ei gymryd i ffwrdd ac yn y pen draw ei ddwyn i llys milwrol. Yn ffodus, nid aeth e gallu dod ato fi gyda'r fidog!

Roedd gaeaf 1947/1948 yn aeaf oer ofnadwy ac es i fyny i Wersyll Catteric yn Swydd Efrog ar gyfer hyfforddiant Signalau Troedfilwyr. Roedden ni'n byw yn adeilad o'r enw 'Y Pryfed Cop' sef cytiau pren, lle roedd pob corridor o'r barics yn cwrdd yn y canol lle roedd yr ystafelloedd ymolchi. Roedd hi mor oer lan fynna, roedd defaid yn arfer dod i mewn yn y nos i geisio cadw'n gynnes. Yr unig wres oedd gennym ni yno oedd stofiau 'coc' (tanwydd) bach gyda simnai yn mynd i fyny trwy'r to. Roeddech chi'n rhoi'r 'coc' i mewn trwy fflap bach ym mhen uchaf y stof. Dim ond dogn bach iawn o danwydd oedd gennym ni ar gyfer pob ystafell farics. Roedd yn fach iawn ac nid oedd yn ddigon. Dim ond digon i oleuo'r stofiau ac yna bydden nhw'n diffodd. I geisio osgoi hyn, roedden ni'n arfer crwydro yn y nos ac dwyn glo o storfeydd yn mess y Swyddogion a'r Rhingyll i geisio cadw'n gynnes. Fe wnaethon nhw sylweddoli hyn a'n hatal ni trwy beintio ymylon eu bynceri glo yn wyn fel y gallen nhw weld os oedd unrhyw beth ar goll. Roedd recriwtiaid ni yr rhai olaf yn ein rhan ni o Wersyll Catteric, oherwydd bod llawer o'r gwersyll yn cau lawr. Roedd effaith hwn yn golygu bod dyletswyddau gwarchod nos i'w gwneud gyda llai a llai o bobl. Felly, yn y diwedd roedd yn rhaid i ni wneud mwy a mwy o ddyletswydd nes i ni fod ar ddyletswydd gwarchod unwaith bob tair noson.

Hyfforddiant Swyddogion

O'r fan honno, ges I gofyn os roedd I eisio roi cynnig ar hyfforddiant Swyddogion, felly meddyliais pam lai? Doedd gen i ddim i'w gollu. Roedd yna profion a chyfweiliadau a basiais cyn cael ei hanfon i OCTU – y Ganolfan Hyfforddi Swyddogion Gwasanaeth Cenedlaethol ger Efrog. Roedd yn hen maenordy prydferth, yn eiddo i ryw Arglwydd. Cawsom ein baricsio yn y tiroedd mewn cytiau pren 'Spider' eto. Dim ond am gyfnod byr yr oeddwn i yno pan ofynnwyd i mi os hoffwn i roi cynnig am Sandhurst. Felly eto, meddyliais y byddwn i'n mynd amdani. Es i lawr gyda chwpl o rai eraill i le profi yn rhywle yn Wiltshire a oedd yn cael ei redeg gan hen Gadfridog, a oedd yn hen ddyn hyfryd. Pasiais a chefais fy newis i fynd i Sandhurst. Gwnaethon nhw yn glir i ni y gallem adael ar unrhyw adeg yn ystod y chwe mis cyntaf os nad oeddem yn ffitio ac bydd ni yna'n parhau â gweddill ein Gwasanaeth Cenedlaethol yn rhywle arall.

Felly, es i Sandhurst yn Camberley, a chefais fy anfon i 'Burma Company' yn New College. Roedd yr astudiaeth a'r hyfforddiant yno fel prifysgol- ar steroidau! Astudiais ystod eang o bynciau o gyfrifeg i hanes a phopeth rhyngddynt, yn ogystal â hyfforddiant milwrol. Treuliais bron i ddwy flynedd o hyfforddiant yno. Fy sbort yno oedd rhedeg pellter hir ac fe redais dros Sandhurst yn erbyn sefydliadau eraill. Rwy'n cofio'n dda iawn ein 'Passing Out Parade' a gorymdeithio i fyny'r grisiau i'r hen goleg gan ddilyn yr Is-lywydd ar ei ceffyl gwyn. Y noson honno cawsom ein ddawns 'Passing Out'. Pob un ohonom mewn siwtiau a'r menywod mewn ffroc dawns. Roedd fy rhieni a fy nghariad, Sheila (a ddaeth yn wraig i mi yn ddiweddarach) yno. Nes I adael Sandhurst ym 1950 a chefais fy nghomisiynu i Gatrawd De Swydd Stafford a oedd ar y pryd wedi'i lleoli yn Hong Cong.

Roedd rhan o'n hyfforddiant Signalau yn cynnwys reidio beiciau modur. Roedd gennym '18 set' sef set radio amser rhyfel yr oeddech chi'n ei gwisgo ar eich cefn ac fe aethom i ffwrdd i'r bryniau ar ein beiciau modur i ymarfer ein hyfforddiant radio. Roeddem wedi'n lleoli yng Nghatteric am chwe wythnos.

Taith i Hong cong

Ar ddiwedd 1950, aeth y ddau ohonom o Sandhurst, a oedd wedi cael ein comisiynu i Gatrawd De Swydd Stafford, ar fwrdd llong o'r enw 'HMS Devonshire' yn Lerpwl lle roeddwn ni yn edrych ymlaen at hwylio i Hong Cong, yn enwedig wrth gyrraedd y terfyn 12 milltir er mwyn i ni allu cael diod a sigaréts heb dreth. Mewn gwirionedd, roedd y gost heb dreth bron yn ddim byd. Ond pan wnaeth ni adael Lerpwl, roedd y môr mor arw roedd ni'n sâl ar unwaith a pharhaodd am y deg diwrnod nesaf drwy Fae Biscay. Wnaeth y salwch ddim setlo i lawr nes i ni fynd heibio Gibraltar ac i Fôr y Canoldir, lle tawelodd ac o leiaf gallem fwynhau diod a sigarét.

Galwodd y llong ym Malta am danwydd, dŵr a chyflenwadau a hwyliodd i Alexandria, yr Aifft, lle wnaeth ni lanio. Roedden ni wedi ein hamgylchynu gan werthwyr ar y doc a gwerthodd un botel fach o 'Spanish Fly' i ni a rhannodd ei bod e'n affrodisiad. Pan wnaethon ni'n ôl i'r llong, fe wnaethon ni roi hwn yn llaeth y cath y llong a dreuliodd y nos llawn yn 'miawio'! Ymwelon ni hefyd â'r Eglwys Gadeiriol Gatholig mor prydferth yn Alexandria, gyda gwaith cerrig hardd a ffenestri gwydr lliw glas a oedd yn ymdrochi ym mhobman mewn golau glas oer.

O Alexandria, aethon ni'n ôl ar fwrdd y llong a theithio ar hyd Camlas Suez. Roedd y daith ar hyd y Gamlas yn hynod o boeth. Mor boeth fel nad oedd awyr iach isod yn y Deciau Milwyr, lle'r oedd y milwyr yn cysgu. Roedd yn anniodefol iddyn nhw. Yr unig aerdymheru oedd yn dod o'r 'scoops' mawr ar y dec a oedd yn sianelu unrhyw wynt i lawr isod. Aeth e mor boeth roedd rhaid i ni ofyn i'r Capten cyn gynted ag y cyrhaeddodd y llynnoedd mawr, sydd yng nghanol y Gamlas, i droi'r llong i'r gwynt. Yn ddiweddarach y noson honno, trodd o gwmpas eto a pharhau i hwylio i lawr i waelod Camlas Suez ac i'r Môr Coch.

Arhoson ni yn Aden am cyflenwadau ac i ymestyn ein coesau ar ochr y doc ond roedd ni ddim gallu mynd ymhellach gan fod gwrthryfelwyr yn ymladd yn Hen Ddinas Aden (ar y pryd cafodd dyn oedd gyda mi yn Sandhurst ei ddal a'i ladd gan y gwrthryfelwyr yn yr Hen Ddinas). O'r fan honno, hwyliodd ni i Fôr Arabia ac ymlaen i Gefnfor India. Arhoson ni yn Colombo yn Ceylon (Sri Lanka nawr). Aeth dau ohonom ni ar daith i ffatri canio pîn-afal a chawsom ddau o'r pîn-afal mwyaf a welson ni erioed. Y noson honno yn ein cabanau aeth ni bwyta bîn-afal cyfan heb sylweddoli beth fyddai cymaint mewn un tro yn ei wneud. Aeth yr asid gadael ni gyda chegau poenus am 24 awr!

Yr arhosfan nesaf oedd Singapore lle gadawodd y rhan fwyaf o'r teithwyr y llong. Roedden ni yno am gryn amser felly aeth swyddog arall a minnau, i Westy'r Raffles am un o'u te enwog ac i'r Gerddi Botaneg a oedd yn brydferth. Dw i'n cofio'r llyn yn yr ardd yn llawn Carp a'r dŵr yn 'berwi' gyda Carp pan fyddai bara'n cael ei daflu i mewn. Daeth 'adjutant' y llong oddi ar y llong gyda'r rhan fwyaf o'r milwyr, gan adael dim ond y rhai oedd ar eu ffordd i Hong Cong, felly cefais fy ngwneud yn 'adjutant' y llong. Cefais y dasg gan Gaptan y llong i gyfweled â gwraig Cymol a oedd yn deithiwr ar y llong ac a oedd wedi gohirio y hymadawiad trwy gyrraedd yn ôl yn hwyr, ar ôl bod ar y lan. Roedd hi wedi cael gwybod i gyrraedd yn ôl ar y bwrdd erbyn 15.00 o'r gloch sef yr amser roedd yr llong fod adael Singapore. Yn y pen draw, aeth hi cyrhaedd yn ôl ddwy awr yn ddiweddarach ac nid oedd Capten y llong yn hapus

iawn. Ei rheswm oedd, er gwaethaf bod yn briod i uwch swyddog oedd yn gwasanaethu, nad oedd hi erioed wedi dysgu'r cloc 24 awr ac felly drysodd hi 15.00 o'r gloch am 5pm a dyna pam roedd hi wedi cyrraedd yn ôl ddwy awr yn hwyr!

Hong Cong a Chatrawd De Swydd Stafford

Yn ôl ar fwrdd y llong, hwyliom i Hong Cong, lle y glaniom. Aeth dau ohonom, y ddau yn Is-filwyr, i fyny i Wersyll Catrawd De Swydd Stafford, a oedd yn y Tiriogaethau Newydd, dim ond tua 2 filltir o'r ffin rhwng Hong Cong a Tsieina. Roedd ein gwersyll yn cael ei adeiladu ar y pryd ac roeddem yn byw mewn pebyll mawr o'r enw 'EPIP's'. Fel arfer, roedd y pebyll hyn yn cymryd tua chwech o bobl ond yn ein hachos ni, dim ond dau swyddog oedd yna.

Un prynhawn roeddem yn y babell a daeth dyn Tsieineaidd i mewn gyda math o offeryn 'hoe' a dechrau cloddio'r llawr. Gofynnodd ni iddo beth oedd yn ei wneud. Wrth gwrs, nid oedd e yn siarad Saesneg ac nid oeddwn yn gallu siarad Tsieinëeg. Aeth i lawr tua 6 modfedd i'r ddaear a chloddio mas arch. Tynnodd top yr arch a oedd ysgerbwd ynddi. Pa mor hir yr oedd wedi bod yno, dwi ddim yn gwybod ond y cyfan a arhosodd oedd yr ysgerbwd gyda het trilby ar ei benglog. Aeth ymlaen i dynnu'r holl esgyrn allan a'u rhoi mewn pot mawr o'r enw 'chatty pot. Yna aeth â'r 'chatty pot' i ffwrdd gydag ef. Gallech weld y potiau hyn wedi'u cuddio ar hyd ochrau'r bryniau, a oedd mewn gwirionedd yn fynwentydd Tsieineaidd.

Roeddwn i'n gomander platŵn yn Hong Cong a swydd I oedd hyfforddi fy 30 o ddynion. Rwy'n cofio nes I gael fy 21ain pen-blwydd yno a llogais gar Americanaidd mawr i fynd â ni, y swyddogion iau, i Hong Cong ar gyfer fy parti pen-blwydd. Cawson ni amser gwych ond pan oedden ni'n dod yn ôl, fe wnaeth yr Heddlu sylwi arnom a chlocio fy mod i'n gyrru dros 60mph ond ni allent ein dilyn am ryw reswm. Y diwrnod nesaf daeth yr Heddlu i'r Gwersyll a gweld y car Americanaidd mawr yn sefyll y tu allan i'r fwyty'r Swyddogion. Siaradon nhw i mi a chefais fy rhybuddio'n briodol. Yn fuan cefais fy ngalw i weld fy 'adjutant', a roddodd saith dyletswydd Swyddog ychwanegol i mi am gael fy nal!

Un o'n tasgau oedd mynd gyda phatrolau'r Heddlu ar y ffin oherwydd bod llawer o smyglo yn digwydd, yn enwedig smyglo petrol. Byddai tuniau 'bisgedi' dwy galwyn yn cynnwys petrol yn cael eu smyglo ar draws i Tsieina. Ar un patrôl daethom ar draws criw o smyglwyr a redodd i ffwrdd yn gyflym, gan adael eu caniau petrol ar ôl. Casglon ni'r holl duniau petrol a'u cymryd yn ôl i'r Gwersyll. Tra roeddwn i yn Hong Cong, roedd gen i feic modur BSA ac roeddwn i'n gallu tanwyddio'r beic modur o'r caniau petrol hynny am weddill fy amser yn Hong Cong!

Un sbort wnaethon ni yn Hong Cong oedd rhedeg i fyny ac i lawr y mynyddoedd. Roedd hyn yn cael eu galw ddringo 'Cud'. Roedd yn gystadleuol iawn a chymerodd pob uned yn Hong Cong ran. Ond gallai fod yn eithaf peryglus yn enwedig wrth ddod i lawr bryniau serth ar gyflymder gan arwain at lawer o gwympiadau ac anafiadau. Ni lwyddodd unrhyw dîm erioed i guro'r Gurkhas; dynion bach, caled, gwifrog a milwyr gwych.

Rhan o'n hyfforddiant yno oedd cloddio safleoedd amddiffynnol wedi'u leinio â haearn rhychog ar hyd y ffin i'w hamddiffyn pe bai'r Tsieineaidd yn dod drosodd. Ond beth ddigwyddodd oedd y byddai'r sifiliaid Tsieineaidd yn dod yn y nos pan nad oeddem ni yno ac

yn dwyn yr haearn rhychiog! Fe wnaethon ni osgoi hyn trwy roi tyllau yn y dalennau, felly doedd dim defnydd iddyn nhw.

Tra roedden ni yn Hong Cong, aeth dau ohonom ni roedd yn Is-filwyr, ar fordaith i Japan. Roedd y mordeithiau hyn ar longau cargo oedd gyda chwpl o gabanau ar gyfer twristiaid. Aethon ni o Hong Cong i Japan ac alwon ni yn Osaka. Yma, fe wnaethon ni gyfarfod â chwpl o Americanwyr oedd yn rhan o'r Lluoedd Meddiannu. Fe wnaethon nhw ein gwahodd i'w Clwb Swyddogion a'n rhybuddio i wisgo lifrai (roedd rhaid iddyn nhw ei wneud drwy'r amser). Fe wnaethon ni droi i fyny yn ein lifrai Gwasanaeth i gael ein cyfarch yn y cyntedd gan Sarjant yn eistedd wrth ddesg. Edrychodd arnom ni a dweud "Hei, chi bois, nid chaniateir recriwtiaid i bod mewn yma". Yn ffodus, cyhaeddodd ein gwesteiwyr a'n mynd â ni i mewn. Cerddoriaeth uchel, swyddogion yn ymlacio mewn crysiau byr yn cael eu gwasanaethu gan weinyddesau Japaneaidd prydferth. Roedd yn ddiflas iawn (ar wahân i'r olaf). Cawson ni gwpl o ddiodyd a gwneud ein hesgusodion! Yn ddiweddarach hwyliodd y llong i Nagoya ac yna'n ôl i Hong Cong. Fe wnaethon ni ffeindio bod y Japaneaidd yn gwrtais ac yn croesowgar iawn.

RHAN DAU

Yn ôl i'r DU

Yn 1951, nes I adael Hong Cong a dychwelyd nol i'r DU i wneud cyfres o gyrsiau hyfforddi troedfilwyr yn Warminster a Hythe. Warminster oedd Cwrs Hir y Cadlywydd Platŵn, a Hythe oedd y Cwrs Hyfforddi Arfau Bach. Roedd ar y traeth graean enfawr rhwng tref Hythe a'r môr ac yn cynnwys llawer o feysydd saethu. Ar ôl y cyrsiau hyn, cefais fy bostio unwaith to' fel Is-Sarjant Hyfforddi'r Depot, Catrawd De Swydd Stafford yn Mharics Whittington. Un o'r dynion cyntaf welais wrth i mi fynd trwy'r gatiâu oedd y Rhingyll Catrawdol (RSM). Edrychodd arnaf ac edrychais arno a dywedodd 'Latham?', atebais 'le RSM, Lifftenant Latham nawr'. Roedden ni wastad yn dod ymlaen yn dda.

Swydd i roedd hyfforddi recriwtiaid ar gyfer Catrawd De Swydd Stafford, a threuliais fy mywyd yn eu cael yn heini, yn eu dysgu driliau a sut i drin arfau bach gyda llawer o'r amser yn cael ei dreulio ar y meysydd saethu. Roedd Ystafell Swyddogion yn adeilad hyfryd ar ymyl y Barics ac roedd fy ystafell I ar ben y grisiau.

Ein 'Adjutant' ar y pryd oedd De Affricanwr cryf iawn, yn chwaraewr rygbi, o'r enw De Villiers, ac roedd ganddo 'French bull terrier' a gymerodd gan ffrind iddo, achos oedd e ddim gallu ei reoli. Gwnaeth y ci brathu ef ar y diwrnod cyntaf a fe wnaethon nhw ddadlau. Ar ol hynny, roedd e'n hoff iawn o De Villiers ond y broblem oedd bod y ci wedi dechrau casau fi. Ar amser cinio, aeth y ci wastad aros amdanaf y tu ôl i'r drwsau a oedd yn arwain i'r neuadd. Byddwn yn rhuthro drwodd ac i fyny'r grisiau gan gymryd dau ar y tro gyda'r ci grac yn agos ar fy sodlau, rhedeg i mewn i'r stafell, slamio'r drws, tynnu fy nghleddyf, ac wedyn agor y drws. Cyn gynted ag y gwelodd y ci y cleddyf, fe redodd i ffwrdd ar hyd y coridor, i lawr y grisiau cefn i guddio yn y cysgodion. Daeth hyn yn ddigwyddiad rheolaidd. Gwnaeth yr ci byth dal fi erioed, ac nes I byth dal y ci hefyd!

Trosoglwyddo i'r RAOC

Tua'r adeg hon roedd y Fyddin yn crebachu, ac roedd catrodau'n cael eu diddymu. Roedd fy ffrind a finnau'n gallu gweld yr ysgrifen ar y wal, ac nes I cael ei gofyn os hoffwn drosglwyddo i Gorfflu Ordnans y Fyddin Frenhinol (RAOC). Cytunais a chefais fy nhrosglwyddo ddechrau 1953. Yna cefais fy anfon ar ddau gwrs hir RAOC, y cyntaf yn 'gaffael' nwyddau milwrol a'r ail yn 'gwrs cerbydau hir'. Roedd yr ddau yn digwydd yn Aldershot yn nepo'r ROAC yno.

Ar ôl cwblhau'r cyrsiau hyn, cefais fy bostio i Nepo'r RAOC yn Bicester. Fy swydd gyntaf yno oedd goruchwylio trosglwyddo lefelau stoc a derbyn cardiau a roddwyd ar y cyfrifiadur newydd a oedd yn cael ei adeiladu yn RAOC Chilwell, Nottingham. Wnes I priodi ddiwedd 1952. Yn y dyddiau hynny nid oedd hawl gan Swyddogion i lety priod nes eu bod yn bump ar hugain oed. Roeddwn i'n bedair ar hugain, felly roedd rhaid i mi ffeindio ryw lety sifil. Yn y pen draw, des i o hyd i rywle yn yr hen maendory yn Tingewick ger Bicester. Hen maenordy braidd yn llwm oedd e, a roedd yn eiddo i'r Arglwyddes Keyes, gwraig yr Llyngesydd Syr Roger Keyes, a oedd yn adnabyddus am enwogrwydd Brwydr Jutland, a mam Jeffrey Keyes (VC) a fu farw ym 1941 wrth geisio cipio Rommel yn anialwch Libia. Roedd hi'n hen wraig annwyl a oedd yn gwisgo'r dillad mwyaf diflas. Ar un achlysur, wnaeth hi gwahodd ni i fynd gyda hi i 'Bicester Hunt Hall'. Ymddangosodd mewn ffrog ddu prydferth, ac yn llifo gyda gemwaith gwych. Pan gyrhaeddodd yn ôl, yn dal i wisgo ei holl ddillad hardd, gwisgodd ei het trilby a chydiodd yn ei fflacholau ac aeth allan i gasglu'r wyau gan yr ieir.

O Bicester cefais fy bostio i'r OCTU yn Aldershot fel 'Is-reolwr Hyfforddi' ac fel cynrychiolydd RAOC. Rwy'n cofio un bennod frawychus. Roedden ni'n hyfforddi'r cadetiaid mewn taflu grenadau llaw 'byw'. Roedd yn oruchwyliaeth un-i-un. Tynnodd y cadet roeddwn i'n ei oruchwyllo'r pin allan, ond yn lle ei daflu allan o'r byncer fe'i gollyngodd. Roedd rhaid i mi wthio o'r ffordd, codi'r grenad, a'i daflu allan cyn iddo ffrwydro! Ganwyd fy mab cyntaf, Andrew, ym 1953.

Yn ôl i Hong Cong

Ar ôl OCTU, cefais fy anfon eto i Hong Cong a hwyliom allan ar yr hen 'HMS Oxfordshire.' Yn Hong Cong swydd I oedd fel Swyddog Staff Cerbydau a rheoli'r depo cerbydau bach. Ar y pryd, roedden ni'n cyflenwi cerbydau i'r unedau yn Hong Cong ac i'r Brigadau oedd yn ymladd yng Nghorea. Roeddwn i wedi cael fy nyrchafu'n Gapt en byrn hyn. Ganwyd fy ail fab, Robert, yn Ysbyty Milwrol Prydain yn Hong Cong. Roedden ni'n byw mewn bloc o fflatiau yn Kowloon ac roedden ni'n cael ein gofalu'n hyfryd gan ddau Ahma (mae 'Ahma' yn cyfeirio at ferch neu fenyw sy'n cael ei chyflogi gan deulu i lanhau, gofalu am blant, a chyflawni tasgau domestig eraill). Roeddwn i'n ffodus iawn i ffitio mewn llawer o bysgota sydd wedi bod yn angerdd i mi erioed. Byddem ni'n mynd allan i bysgota mewn Sampans yn harbwr Hong Cong ac yn aber afon Pearl. Roedd y pysgota wir yn dda iawn. Defnyddiom ni gorgimychiaid enfawr fel abwyd (yn costio un Doler HK yr un). Roedd y ddynes Sampan yng nghefn y cwch yn ffrio'r gweddillion mewn olew a sudd tomato, ac roedden nhw'n hollol blasus. Roedd yr Ahma wrth eu bodd pan ddaethom yn ôl o bysgota oherwydd roedden nhw'n gwybod y byddem ni'n dod â llawer o bysgod yn ôl iddyn nhw.

Caergrawnt

Fe wnaethon ni hedfan yn ôl o Hong Cong a chefais fy anfon i ddepo cerbydau yng Nghaergrawnt am tua blwyddyn. Roedd y ddepo hwn yn storio'r hyn a elwid yn gerbydau 'A'; hynny yw tanciau a cheir arfog, a oedd ar ôl o'r rhyfel. Ein gwaith ni oedd tynnu'r cerbydau hyn allan o'r storfa unwaith y flwyddyn ac ynghyd â'r 'REME' eu cael i redeg, cyn eu dychwelyd yn ôl i'r storfa. Yn y pen draw, cawsant eu gwerthu i gyd i gwmni o'r enw 'Kings of Cambridge' a wnaeth ffortiwn o'r dur sgrap. Roedd yr Americanwyr wedi cynhyrchu cludwyr gynnew 'Bren' i ni yn ystod y rhyfel ac roedd rhai o'r rhain i gyd wedi'u bocio lan yn y Depo. Prynodd 'Kings of Cambridge' resi ohonynt am £50 y blwch. Wedi'u pweru gan beiriannau Ford V8 (a oedd eu hunain yn werth llawer o arian), roeddent yn gerbydau rhedeg cyflawn ond roedd nhw hefyd yn cael eu sgrapio.

Roedd llety ein Huned pryd roedden ni yng Nghaergrawnt yn Royston gerllaw. Cawsom ein carafán wedi'i dynnu i Royston a wnaethon byw ynddo ar fferm ieir. Doedd dim angen cloc larwm arnom yn y bore oherwydd tua 4.30am byddent i gyd yn dechrau canu!

Fy swydd nesaf oedd i bencadlys y sefydliad cerbydau a oedd yn nepo'r Ordnans yn Chilwell, Notts, ac erbyn hyn roeddwn i wedi cael fy nyrchafu i Uwchgapten.

Cenia

O Chilwell cefais fy anfon i Kenya i weithio i Joseph Kenyatta, Prif Weinidog Kenya, fel rhan o Dîm Hyfforddi Byddin Prydain, a gwasanaethais fel swyddog staff ar ei staff. Wnes I cyfarfod ag ef ar sawl achlysur ac yn ystod fy amser yno un o'n swyddi oedd dylunio gwisgoedd byddin newydd ar gyfer Byddin Kenya, a wnaed wedyn yn y DU. Swydd arall oedd caffael cerbydau o'r DU ar gyfer byddin Kenya. Fe wnaethon ni ddarganfod nad oeddem yn gallu dod o hyd i unrhyw cerbydau danciau dŵr. Roedd rhain yn bwysig iawn gan ei bod hi mor boeth i filwyr Byddin Kenya a oedd ar y pryd yn rhan o ryfel y 'Shifta' (1963-67). I osgoi hyn, dyluniais danciau dŵr a oedd yn cysylltu ar gefn lorïau 'tri thunnell' cyffredin. Cafodd rhain hefyd i defnyddio gan Llu Awyr Kenya a Llynges Kenya i lawr ym Mombasa. Gall nhw hefyd cael eu defnyddio fel peiriannau tân gydag ychwanegu o pwmp dŵr pwerus.

Byddai'r Shifta yn cloddio'r traciau a rhoi fwynglawdd ynddo i ffrwydro cerbydau byddin Kenya. I osgoi hyn, cipiodd byddin Kenya ymladdwyr Shifta a'u rhwymo i flaen eu cerbydau fel pe bai'r cerbyd yn gyrru yn agos at fwynglawdd byddent yn gweiddi allan. Yna byddai'r mwynglawdd yn cael ei ddadgomisiynu'n ddiogel.

Roedd Cenia yn swydd hyfryd a'r gwaith oedd y mwyaf boddhaol. Fe wnaethon ni deithio o gwmpas dipyn. Dw i'n cofio hedfan o amgylch Mynydd Cenia ar 18,00 troedfedd gyda Llu Awyr Cenia a theithio i fyny i ogledd-orllewin Cenia a gwyliau gwych ym Mombasa, pysgota am diwna ac ymlacio yn y ganolfan wyliau yno. Dw i hefyd yn cofio cael fy mygwth gan eliffant pan oedden ni'n teithio i lawr y ffordd i Mombasa. Dychrynlyd! Ar adegau, fe aethon ni i mewn i ddyffryn yr hollt ac aros mewn pebyll parhaol ar lan Llyn Naivasha. Fe wnaethon ni bysgota yn ystod y dydd ac yn y nos fe wnaethon ni eistedd o amgylch tân enfawr gyda diod a gwylïo'r holl lygaid yn disgleirio yn yr adlewyrchiad o'r tân ac yn gwranddo ar grwgnach

yr hippos. Hyfryd! Dwi hefyd yn cofio chwilio am 'rock hyracs' (mamal maint canolig sy'n frodorol i Affrica a'r Dwyrain Canol) yn Nyffryn yr Hollt. Gwelsom yr hyracs ond yn sydyn cawsom arogl cryf a phendant iawn o lew. Fe wnaethon ni adael yn gyflym yn ôl i'r car! Cyn i ni adael Cenia, roeddwn i wedi hyfforddi fy olynnydd Affricanaidd a chymerodd e drosodd oddi wrth i. Ar ôl Cenia, cefais gyfres o swyddi. I ddechrau, cefais fy anfon yn ôl i'r DU i bencadlys y sefydliad cerbydau yn y depo mawr arfau yn Chilwell, Nottingham. Roeddwn i'n arfer ymweld â'n holl ddepo cerbydau gwahanol ac rwy'n cofio ymweliad â'r Depo Cerbydau yn Luggershall, Wiltshire, lle cefais fy addysgu i yrru tanciau. Rwy'n credu yr un wnes I hyfforddi arno oedd 'Centurion'. Yna cefais fy anfon i'r Almaen.

Rhan Tri

Yr Almaen

Fy swydd yn yr Almaen oedd uchafbwynt fy ngyrfa. Roedd hyn i'r 2il Adran yn yr Almaen i reoli un o'r ddau Barc Maes Ordnans (OFP). Nid yw llawer o Swyddogion yn cael rheoli Uned. Roedd fy OFP wedi'i leoli yn Osnabruck mewn Barics hardd Almaenig ar fryn. Yn ogystal ag ymarferion y Frigâd a'r Adran, roedden ni'n arfer hyfforddi trwy ddileu'r OFP cyfan, a oedd yn cynnwys tua 20 neu 25 o gerbydau, ar gyfer ein hymarferion ein hunain. Des i o hyd i ffermwr tua 20 milltir i ffwrdd a rhoddodd ganiatad inni ddefnyddio'r OFP yn un o'i goedwigoedd. Ar ôl i mi fod yn hapus ar gynllun a chuddliw'r cerbydau, byddem yn camu i lawr i anweithredol, a byddai'r bois yn mynd i'r pentref agosaf am ychydig o 'sesiwn'. Cefais fy ngwahodd i dŷ'r ffermwr am ddiod a byddwn yn cyflwyno frandi iddo o'r enw brandi De Roche brynais yn rhad iawn gan yr NAAFI, yr oedd e'n eithaf hoff ono. Mewn ymateb, rhoddodd e garw cyflawn i ni yr oedd wedi'i saethu yn ei coedwig. Aethon ni â hwn yn ôl i'r cogyddfa ac aeth i mewn i'r diet cyffredinol ar gyfer yr OFP. Ar ddiwedd fy ngwasanaeth yn yr OFP ac am fy mhrofiad blaenorol mewn gweinyddiaeth, dyfarnwyd AMBIM (Aelod Cyswllt o Sefydliad Rheolaeth Prydain) i mi.

Fy swydd nesaf oedd fel Swyddog Staff ar staff 2il Adran CRAOC yn Lubeka (gweler y llun). O'r fan honno es i bencadlys Byddin Brydeinig y Rhein (BAOR) yn Rheindahlen, eto fel Swyddog Staff, ym mhencadlys ROAC (gweler y llun).

Roedden ni'n ffodus i fyw mewn llety mawr iawn i briodaswyr. Roedd yn dŷ enfawr gyda phedair ystafell wely ac roedd reit ar bwys coedwig. Roedd yr ardd yn noeth iawn felly'r wythnos gyntaf aeth fy ngwraig a minnau dros y ffin i'r Iseldiroedd i'r farchnad a phrynu llawer o flodau, a wnaethon ni blannu nhw I gyd y diwrnod hwnnw. Y bore wedyn, aethon ni allan ac roedden nhw i gyd wedi mynd ar ôl cael eu bwyta gan gwningod, yna roeddwn ni yn ddeall pam nad oedd y perchennog blaenorol wedi gwneud llawer o arddio!

Tra roedden i'n gwasanaethu yn Rheindahlen roedd ysgol newydd i blant y lluoedd arfog yn cael ei sefydlu. Roedd fy ngwraig, Sheila, yn rhan fawr o hyn a phan agorodd, cafodd ei

phenodi'n ysgrifennydd yr ysgol. Swydd brysur. Cymaint felly roedd rhaid iddi hi gael cynorthwydd ei hun i'w helpu a gwneud ei theipio. Arhosodd Sheila yn yr ysgol nes i ni adael yr Almaen.

Yn ystod ein hamser yn yr Almaen roedd y 'Rhyfel Oer' ar y gweill ac roedd Berlin wedi'i hamgylchynu gan diriogaeth dan reolaeth Rwsia. Roedd Sector Prydain yn Berlin wedi'i gysylltu â'r Gorllewin gan un ffordd dan reolaeth lem. Roedd gennym ganolfan adael yn Berlin, gwesty braf iawn. Manteisiwyd ar hyn ac es i â'r teulu i Berlin. Aethom mewn car, a stopiwyd wrth y safle gwarchod i'r ffordd dan reolaeth, lle cawsom ein cofrestru gan rai milwyr Rwsiaidd smart iawn mewn gwisgoedd wedi'u teilwra. Cefais fy nghyfarch, ond yn embaras i mi, ni chaniatawyd i mi gydnabod eu cyfarch. Roedd yn rhywbeth i'w wneud â 'chydabyddiaeth'. Aethom ar daith o amgylch Sector Gorllewin Berlin, gwelsom y Wal Berlin a chymerwyd y plant i'r sw gwych yng Ngorllewin Berlin. Cawsom daith dan reolaeth o amgylch Sector Rwsia hefyd. Aethom trwy 'Checkpoint Charlie' a cawsom olygfa dda iawn o Gât Brandenburg, ymhlith llawer o olygfeydd eraill. Rwy'n cofio pa mor lân a chlyfar oedd yr ardaloedd cafodd ni caniatad eu gweld. Diddorol.

Yn ôl i'r DU

Nesaf, cefais fy bostio i'r Depo Arfau Ordnans mawr iawn yn Kineton, a oedd wedi'i leoli ar safle Brwydr Edgehill ym 1642. Roeddwn i'n Swyddog yn Rheoli'r Milwyr. Roedd y milwyr i gyd yn arbenigwyr ar arfau a oedd yn gofalu am arfau ar gyfer eu dosbarthu dros ledled y byd.

Fy swydd nesaf oedd yn ôl i'r Depo Arfau Ordnans yn Chilwell, fel Uwchgaptan yn rheoli un o'r is-ddepoau, gyda staff sifiliaid ac ychydig o filwyr. Tua'r adeg hon, prynais i a fy ngwraig ein tŷ ein hunain yn Long Eaton, ger Chilwell. Roedd yn Dŷ Edwardaidd hardd a oedd unwaith yn eiddo i un o deuluoedd tybaco mawr yn Nottingham.

Fy swydd olaf oedd i'r Depo Arfau Ordnans Canolog (COD) yn Donnington yn Swydd Amwythig. Cefais fy nychafu i fod yn Is-gyrnol fel Prif Swyddog Gweinyddol y depo ac ar yr adeg hon, fe wnaethom werthu ein tŷ yn Long Eaton a phrynu hen ffermdy yng Nghymru, ar lannau Aber Afon Dyfi, ger Machynlleth. Am ddwy flynedd, roeddwn i'n teithio o gwaith i Gymru ar bob penwythnos posibl, nes i mi ymddeol ym 1981.

Ymddeoliad

Cyn gadael y Fyddin, wnes I cwblhau gwrs ymddeol chwe wythnos mewn coleg amaethyddol yn y De. Un peth wnes I ddysgu ar y cwrs hwnnw oedd peidio byth â bod yn ffermwr! Ar ôl deugain a dwy flynedd rydym yn dal i fyw ar ein fferm ar lan Aber Afon Dyfi ac wir wedi setlo'n yma yng Nghymru hardd. Yn enwedig rydym yn mwynhau'r pysgota ar ein stepen drws ac ym Mae Aberteifi, oddi ar Aberystwyth!

Mae'r adroddiad naratif hwn o Wasanaeth Cenedlaethol i'w gael yng nghanasgliad Gwasanaeth Cenedlaethol Peter Latham yn Archif Cyn-filwyr Gorllewin Cymru, gwefan Casgliad y Werin Cymru.

Mae pob hawl, gan gynnwys hawliau cyhoeddi i'r erthygl hon, yn perthyn i Peter Latham, neu ei fuddiolwr uniongyrchol pe bai'n marw.

Mae hawliau cyhoeddi i ddeunydd gafodd eu defnyddio i gwblhau'r ddogfen hon yn aros gyda'r cyhoeddwr gwreiddiol.



Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

www.casgliadywerin.cymru
www.peoplescollection.wales

